Coleg Graddedigion
y Brifysgol

CARDIFF UNIVERSITY
PRIFYSGOL CAERDYDD

Cylchlythyr Mawrth - Mai 2013

Gair gan y Deon

Gyrfaoedd yw'r thema ar gyfer y rhifyn hwn o gylchlythyr Coleg Graddedigion y Brifysgol, Yma, mae'r **Athro Terry Marsden**, Deon Coleg Graddedigion y Brifysgol, yn rhoi ei syniadau ar baratoi ar gyfer gyrfa yn y byd academaidd neu du hwnt.

"Mae'r broses ymchwil y mae myfyrwyr doethuriaeth yn ei dilyn ac yn ei chwblhau yn eu graddau doethuriaeth yn werthfawr iawn i gynulleidfaoedd a gyrfaoedd anacademaidd. Mae hyn wedi bod yn wir ers tro byd, ond credaf ei fod yn arbennig o wir nawr. Mae doethuriaeth yn basport pwysig ar gyfer hyrwyddo'ch gyrfa y tu allan i'r byd academaidd - yn y maes polisïau, yn y sector preifat a mannau eraill. Mae'r un peth yn wir yn y byd academaidd ei hun. Mae mwy o bwyslais ar ddefnyddio profiad a thestun y ddoethuriaeth fel sylfaen ar gyfer ymchwil bellach a chyhoeddi. Yn achos gyrfaoedd anacademaidd, gallai'r profiad hwnnw ei hun arwain yr unigolyn at amrywiaeth o feysydd gwahanol eraill.

Pan ddaw'n amser i chwilio am yrfa, mae angen i chi fod yn ymwybodol o'r pethau y bydd cyflogwr yn chwilio amdanynt ar CV. Byddant yn edrych am dystiolaeth o unrhyw hyfforddiant y gallech fod wedi ymgymryd ag ef yn ystod cyfnod y ddoethuriaeth. Hefyd, mae angen i chi allu dangos yr amrywiaeth sgiliau a phrofiad rydych wedi'u cael yn sgil gwneud y ddoethuriaeth. Mae hefyd yn bwysig cael rhyw fath o gynllun ynghylch beth rydych yn ei wneud â'r deunydd ymchwil o'r ddoethuriaeth – pa un a ydych yn ei gyhoeddi, neu a yw'n ddiben ynddo'i hun a'ch bod yn symud ymlaen. Mewn cyfweliad, bydd y cyfwelydd yn edrych am egni a chymhelliant cadarn, ac ymrwymiad I ddatblygu'r swydd sy'n cael ei chynnig. Dylech fod wedi paratoi'n dda - gwnewch eich gwaith cartref a meddyliwch ynghylch sut ydych yn cydweddu â'r manylion ar gyfer y swydd.

Mae nifer o sgiliau hanfodol y mae angen i fyfyriwr doethuriaeth eu datblygu i baratoi ei hun ar gyfer gyrfa. Mae'r rhain yn cynnwys gallu meddwl â gwreiddioldeb, ac ysgrifennu a chyfleu eich ymchwil yn ehangach i gynulleidfaoedd academaidd ac anacademaidd. Sgil arall sy'n bwysig i'w datblygu yw'r gallu i ddatrys problemau, rhai tymor byr a thymor hir, mewn perthynas ag agweddau gwahanol ar y broses ymchwil. Mae gallu effeithiol i reoli prosiect doethuriaeth o'r cychwyn cyntaf yn hollbwysig hefyd. Byddwn yn argymell yn gryf fod myfyrwyr, gyda'u goruchwylwyr, yn manteisio ar asesiadau rheolaidd o anghenion sgiliau. Mae'n cael y goruchwyliwr a'r myfyriwr i ymwneud â'r mater hwn, ac mae'n pennu meysydd i'w datblygu. Mae Coleg Graddedigion y Brifysgol yn cynnig amrywiaeth enfawr o **weithdai a hyfforddiant** i alluogi'r broses hon.

Mae'n bwysig i fyfyrwyr doethuriaeth gael eu cyflwyno i'r prosesau a'r gweithgareddau ymchwil ar draws disgyblaethau. Mae'n rhoi safbwynt ehangach i chi ar y broses ymchwil, a chredaf fod hynny'n iach ac yn fwyfwy perthnasol i ystyriaeth gyrfaoedd. Nid yw bob amser yn *angenrheidiol* i fyfyriwr fod yn rhyngddisgyblaethol, ond mae'n dod yn fwy cyffredin i ymchwil groesi hen ffiniau sefydledig disgyblaethau. Rwy'n credu y bydd mwy o bwyslais ar ddoethuriaethau sy'n rhai rhyngddisgyblaethol ac sy'n gallu gweithio ar y ffiniau. A dweud y gwir, gweithio ar ffiniau yn rhannol yw diffiniad doethuriaeth. Mae Coleg Graddedigion y Brifysgol yma i weithredu fel cyfrwng i alluogi gweithgarwch rhyngddisgyblaethol i ddigwydd, felly byddem yn annog myfyrwyr i fanteisio ar y **cyllid** a gynigiwn ar gyfer gweithgareddau rhyngddisgyblaethol, ac i fynychu ein **Cynadleddau rhyngddisgyblaethol dan arweiniad Myfyrwyr**.

Fe wnes i fy noethuriaeth gryn amser yn ôl, ac nid oedd cyfleusterau hyfforddi'n cael eu darparu bryd hynny, ac nid oedd gennym yr un amgylchedd cefnogol ag a geir heddiw. Roeddwn yn gweithio ar fy mhen fy hun i raddau helaeth gyda fy ngoruchwyliwr, ac roedd diffyg pobl eraill yn gweithio mewn meysydd cysylltiedig. Roedd hynny'n broblem, gan yr oeddwn wedi f'ynysu o fewn y sefydliad. Y neges yma yw, manteisiwch ar yr holl gyfleoedd a gynigir yng Ngholeg Graddedigion y Brifysgol, yn ogystal â'r Brifysgol ehangach, i ryngweithio ac ymgysylltu â'r gymuned doethuriaethau."

Prif Gynghorion

- Ymgysylltwch â'ch goruchwylwyr a'ch cydweithwyr ymchwil ynglŷn â'ch anghenion sgiliau yn rheolaidd.
- Gwnewch y gorau o fod mewn Prifysgol lewyrchus sy'n cael ei harwain gan ymchwil, ac ymgysylltwch â myfyrwyr doethuriaeth ar draws y sefydliad.
- Mae rheoli amser yn wirioneddol bwysig. Os ydych yn teimlo nad ydych chi'n rheoli'ch amser yn effeithiol, siaradwch â rhywun amdano neu ewch ar gwrs rheoli amser.
- Meddyliwch sut beth fydd eich CV a beth ydych chi'n mynd i'w gynnwys ynddo. Cofiwch y gallwch ofyn am gyngor ar yrfaoedd.

Phd Comics

Ydych chi'n gefnogwr Phd Comics?

Rydym yn falch o gyhoeddi y bydd Jorge Cham, y dyn y tu ôl i'r comics hynod boblogaidd, yn ymuno â ni ar **17 Ebrill** i gyflwyno sgwrs ddifyr ac anffurfiol am ei brofiadau wrth ddod â hiwmor i fywydau myfyrwyr doethuriaeth sy'n dioddef dan straen! Bydd y sgwrs hefyd yn archwilio ffynhonnell pryderon myfyrwyr doethuriaeth ac yn archwilio euogrwydd, myth, a phŵer llusgo traed.

Mae Jorge wedi teithio i dros 150 o brifysgolion a chanolfannau ymchwil ledled y byd, yn darlithio ac yn gwrando ar fyfyrwyr gradd o bob lliw a llun, gan rannu eu straeon am orbryder academaidd a digalonni.

Disgrifiwyd y sgwrs hon fel un 'ddigrif a defnyddiol sy'n procio'r meddwl', a bydd yn ddihangfa berffaith i'r myfyriwr doethuriaeth prysur neu Oruchwyliwr.

Ar ôl y sgwrs, bydd Jorge yn cynnal sesiwn holi ac ateb, ac yna bydd myfyrwyr doethuriaeth yn cael cyfle i gymdeithasu mewn derbyniad caws a gwin. Bydd diodydd ysgafn ar gael hefyd.

Cadwch olwg am fwy o fanylion wrth iddynt gael eu cyhoeddi ar ein **gwefan** a'n tudalen **Twitter**.

Mentrau Ymchwil Ôl-raddedig

Ddwywaith y flwyddyn, bydd Coleg Graddedigion y Brifysgol yn gwahodd myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig i gyflwyno ceisiadau am gyllid mentrau ymchwil ôl-raddedig. Mae'r cyllid hwn yn gyfle gwych i ymchwilwyr o ddisgyblaethau gwahanol i ddod at ei gilydd i drafod diddordebau ymchwil cyffredin, ac mae'n helpu myfyrwyr i ddatblygu sgiliau y gellir eu trosglwyddo trwy roi cyfle iddynt weithio ar y cyd i drefnu digwyddiadau.

Rydym yn falch o gyhoeddi'r ymgeiswyr llwyddiannus o'r cylch ariannu mwyaf diweddar:

Ymgeisydd 1	Ysgol	Ymgeisydd 2	Ysgol	Teitl y Prosiect
Tim Forman	Ysgol Pensaerniaeth Cymru	Kyriakos Mouzatitis	Ysgol Peirianneg Caerdydd	Dyfodol yr Amgylchedd Adeiledig: fforwm ar gymdeithas, ecoleg, economi a chynaliadwyedd
Siriol McAvoy	Ysgol Saesneg, Cyfathrebu ac Athroniaeth Caerdydd	Lisa Sheppard	Ysgol y Gymraeg	Adeiladu Hunaniaethau a Newid Mannau yng Nghymru: trafodaeth ar gyfer ymchwil ôl-raddedig
Tom Harman	Ysgol Saesneg, Cyfathrebu ac Athroniaeth Caerdydd	Hannah Pitt	Ysgol Cynllunio a Daearyddiaeth Caerdydd	Ecolegau Hanfodol: Theori, Diwylliant a'r Amgylchedd
Rhiannon Pugh	Ysgol Cynllunio a Daearyddiaeth Caerdydd	Helen Taylor	Ysgol leithoedd Ewropeaidd, Cyfieithu a Gweleidyddiaeth Caerdydd	Cymru; gwneud pethau'n wahanol? Cynhadledd Undydd

Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno cais ar gyfer y cylch ariannu nesaf yw 5pm **dydd Gwener 21 Mehefin**. I gael mwy o wybodaeth, cysylltwch â Dr Afia Ahmed yng Ngholeg Graddedigion y Brifysgol: **ugc@caerdydd.ac.uk, 029 2087 9408**

Croeso Cynnes

Hoffem estyn croeso cynnes i Sian Verrall, sy'n ymuno â Choleg Graddedigion y Brifysgol fel Swyddog Prosiectau Ymchwil Ôl-raddedig. Edrychwn ymlaen at gael aelod newydd ar y tîm!

Diwrnod Gwyddorau Bywyd

Ar ddydd Gwener 16 Tachwedd cynhaliwyd 27ain Diwrnod Blynyddol Gwyddorau Bywyd ar Gampws Parc y Mynydd Bychan. Roedd y cyfranogwyr yn cynrychioli'r ysgolion Meddygaeth, Deintyddiaeth a Biowyddorau, ac roedd ganddynt ddiddordeb i ganfod pa waith ymchwil yr oedd eu cyd-fyfyrwyr yn gweithio arno. Roedd ansawdd ac ehangder y gwaith yn nodedig, gyda gwaith arbrofol, clinigol ac epidemiolegol yn cwmpasu amrywiaeth o afiechydon, gan gynnwys canserau gwahanol, anhwylderau seiciatrig, ac afiechydon yr arennau a'r ysgyfaint a ysgogodd lawer o drafod brwd.

Trefnwyd y diwrnod gan bwyllgor o fyfyrwyr, a chawsom yr anrhydedd hefyd o groesawu dau siaradwr allanol nodedig. Rhoddodd yr Athro Nick Phin gipolwg i'r ymchwil yn yr Asiantaeth Diogelu Iechyd fel olrhain achosion o'r ffliw, a bu Syr Mark Walport, Cyfarwyddwr Ymddiriedolaeth Wellcome, yn siarad am y cyfleoedd ar gyfer ymchwilwyr ar ddechrau'u gyrfaoedd, o ran nodweddion ymarferol y cymrodoriaethau sydd ar gael, a beth allent anelu i'w gyflawni.

Cafodd panel o feirniaid, yn cynnwys staff o'r ysgolion amrywiol, argraff dda iawn o'r hyn wnaethon nhw ei weld a'i glywed; y nhw oedd â'r gorchwyl heriol o ddewis yr anerchiadau a'r posteri gorau. Dyfarnwyd gwobrau mewn derbyniad gwin a chaws yn dilyn y digwyddiad, ac roedd pawb dan sylw yn gwbl haeddiannol. Roedd yr awyrgylch yn siriol, a gadawodd pawb gan deimlo eu bod wedi ennill rhywbeth o'r diwrnod, hyd yn oed os mai brwdfrydedd o'r newydd oedd hwnnw i barhau â'u hymchwiliadau eu hunain.

Roedd y pwyllgor trefnu yn falch iawn o'r adborth cadarnhaol a dderbyniwyd ganddynt, a dymunant ddiolch i bawb a gymerodd ran, gan gynnwys y noddwyr a fu'n ddigon hael i ariannu'r diwrnod. Mae'r gwaith o drefnu digwyddiad y flwyddyn nesaf yn dechrau nawr, ac mae'n debyg y caiff ei gynnal ar y trydydd dydd Gwener ym mis Tachwedd; felly cadwch olwg am wybodaeth bellach.

- **Eilis Hanlon,** Pwyllgor Ymchwil Ôl-raddedig

Enillwyr y Gwobrau

Cyflwyniadau Poster:
Gwobr 1af Hoi Weeks (Canser)
2ail Wobr Claire Dent (Seicoleg, Medd)
3edd Wobr Chukwudi Okolie (Iechyd y Cyhoedd)

Cyflwyniadau Llafar:
Gwobr 1af Manon Pritchard (Deintyddiaeth)
2ail Wobr Jana Witt (Iechyd y Cyhoedd)
3edd Wobr Tanya Bodenham (MEM)

Poster Dewis y Myfyrwyr:
Steph Smits (Iechyd y Cyhoedd)

Anerchiad Dewis y Myfyrwyr:
Josephine Salimu (Canser)

Dyddiadau i'w Nodi

Dalier sylw: mae'n rhaid archebu lle o flaen llaw ar gyfer pob digwyddiad. Am restr lawn o weithdai a digwyddiadau, ewch i: **www.caerdydd.ac.uk/ugcp**

MAWRTH

7 - Conference Posters

21 - Exploring Career Options Beyond Academia (Physical Sciences and Engineering)

EBRILL

16 - Applying for Academic Jobs (Humanities and Social Sciences)

17 - PhD Comics: A Talk by Jorge Cham

19 - Exploring Career Options Beyond Academia (Biological and Health Sciences)

23 - Applying for Academic Jobs: Planning Your Research Trajectory

25 - Starting Out: Induction Event for New Researchers

MAI

10 - What Next? Career Planning for PhD Students

16 - Application Forms: Making Your Answers Count

21 - UGC Graduate Facilities Programme Team Meeting

22 - Effective CV Writing

23 - UGC Training and Development Programme Team Meeting

29 - UGC Building Capacities Programme Team Meeting

Arolwg o Ddarpariaeth Gymraeg

Mae Coleg Graddedigion y Brifysgol wrthi'n pennu cwmpas datblygu hyfforddiant sgiliau cyfrwng Cymraeg gyda'r bwriad o fodloni targedau a osodwyd yn y strategaeth cyfrwng Cymraeg. Fel rhan o'r prosiect hwn, anfonwyd arolwg allan i 60 o fyfyrwyr Cymraeg eu hiaith ar draws amryw o ddisgyblaethau a meysydd pwnc. Derbyniwyd 21 o ymatebion. Bydd adroddiad llawn ar gael yn fuan, ond nodir rhai canfyddiadau cychwynnol isod:

Er mai dim ond 38% a ddywedodd fod goruchwylwyr Cymraeg ganddynt, dywedodd 87% o'r rhain y cynhaliwyd eu goruchwyliaethau yn Gymraeg.

Mae ychydig dan chwarter (25%) yn cynllunio i ysgrifennu eu traethodau hir yn Gymraeg a chael eu harholiad llafar yn Gymraeg.

Teimlai myfyrwyr mai'r meysydd blaenoriaeth ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg yw'r meysydd hynny sy'n ymwneud â sgiliau cyfathrebu, fel:

- Ymgysylltu ac effaith (e.e. ysgrifennu ar gyfer y cyhoedd)
- Sgiliau cyflwyno
- Cyhoeddi (e.e. erthyglau mewn cyfnodolion)
- Ysgrifennu (e.e. ysgrifennu academaidd)
- Sgiliau addysgu
- Cynadleddau (e.e. ystadegau ysgrifennu)

Roedd gwasanaethau/cymorth arall i ymchwilwyr ôl-raddedig y byddai gan fyfyrwyr ddiddordeb ynddynt pe baent yn cael eu cynnig yn Gymraeg yn cynnwys:

- Y cyfle i gyflwyno papur trwy gyfrwng y Gymraeg
- Cyllid ar gyfer cyfieithiadau dwyieithog
- Mwy o ddefnydd o'r Gymraeg mewn digwyddiadau ymsefydlu a gweithdai academaidd
- Gwybodaeth am yrfaoedd cyfrwng Cymraeg
- Digwyddiadau cymdeithasol yn Gymraeg
- Sgiliau cyfieithu

Bydd adroddiad llawn ar gael ar-lein maes o law.

Mae'n Academaidd!

Yn y rhifyn hwn, mae'r Athro Rob Honey yn dweud wrthym am ei anturiaethau yn y byd academaidd.

"Ar ôl blwyddyn i ffwrdd gwbl anghynhyrchiol, awgrymodd un o fy nghyn ddarlithwyr ym Mhrifysgol Sussex y dylwn wneud cais am ysgoloriaeth ymchwil ôl-raddedig (SERC) yn yr Adran Seicoleg yng Nghaerefrog. Roeddwn yn naïf iawn heb fawr o syniad beth allai hyn ei olygu, nac yn wir bod cyllid ar gael i wneud ymchwil ôl-raddedig. Gan gyrraedd Caerefrog ar ddiwedd 1984, bu'r flwyddyn gyntaf yn un heriol: goresgyn yr ofnau o siarad yn gyhoeddus a rhaglennu cyfrifiaduron a chynnal cyfres helaeth o astudiaethau wedi'u rheoli i'r dim na ddeilliodd unrhyw ganlyniadau ohonynt y gellid eu cyhoeddi. Roedd yr olaf yn ddigon i dynnu'r gwynt o'ch hwyliau, hyd yn oed mewn oes pan oedd y pwys ar gyhoeddi fel myfyriwr doethuriaeth yn llai amlwg nad ydyw heddiw; ond fe wnaeth hyn fy mharatoi'n dda ar gyfer troeon gyrfa ymchwil.

Nid wyf yn siwr pa bryd yn union y trodd y llanw ymchwil, neu a yw'n well i unrhyw lwc daro yn gynnar neu'n hwyrach yn eich cyfnod fel myfyriwr doethuriaeth, ond yn ystod fy ail flwyddyn dechreuais gael fy nghyfran o lwc a serendipedd. Hefyd, drwy oruchwylio cleifion ac ymarfer yn ddi-baid, fe wnes i wella fy sgiliau meddwl ac ysgrifennu, gan ddod i ben â gwneud y ddau ar yr un pryd weithiau! Drwy ddatblygu'r sgiliau hyn yn gynnar, ynghyd â chefnogaeth gan fy nheulu a ffrindiau, a'r rhagolwg o gael cyflog ôl-ddoethurol, bu modd i mi gwblhau fy nhraethawd hir yn hawdd o fewn tair blynedd ac er gwaetha'r dechrau simsan.

Cefais gyfres o swyddi ôl-ddoethurol tymor byr (SERC ac MRC) yng Nghaerefrog, lle parheais i weithio gyda'm goruchwylwyr am bedair blynedd arall. Roedd hwn yn gyfnod cynhyrchiol a ffurfiannol, ond roedd y sefyllfa ariannu ar gyfer "ymchwil meddwl-cwbl-agored" yn ansicr a dweud y lleiaf. Yn rhy hwyr, dechreuais feddwl am fy nyfodol, a phenderfynais adael Caerefrog hanner ffordd drwy grant MRC 12 mis yr oeddwn wedi'i gyd-ysgrifennu. Ym 1991, symudais i swydd ôl-ddoethurol 18 mis (AFRC) mewn gorsaf maes ynghlwm wrth yr Adran Sŵoleg yng Nghaergrawnt. Ystyriai rhai o'm cydweithwyr, a weithiai ym maes seicoleg, fod hwn yn wyriad hynod. Ond mae capasiti i feithrin sgiliau hanfodol meddwl, ysgrifennu ac ymgysylltu'n gyffredinol yn sgiliau y gellir eu trosglwyddo. Mentrodd cyfaill o Ogledd America â dweud fod y "cynnyrch" o'r gwyriad yn gyfyngedig. Mae'n wir dweud y bydd cyfradd gyhoeddi (y cynnyrch) yn gostwng yn aml pan fyddwch yn symud ac yn gorfod dysgu sgiliau newydd; ond byddwch yn dysgu sgiliau newydd ac yn rhyngweithio â phobl newydd a chanddynt syniadau gwahanol. Mae'n bris gwerth ei dalu.

Llwyddais i sicrhau Cymrodoriaeth Ymchwil Prifysgol y Gymdeithas Frenhinol ym 1992, a deuthum â hon i Gaerdydd ym 1993. Rwyf bellach wedi treulio 19 mlynedd yma, fel Cymrawd Ymchwil am y saith mlynedd gyntaf, ac ers hynny fel Darllenydd ac Athro. Fy mhrif rôl yn yr Ysgol Seicoleg yw fel Cyfarwyddwr Ymchwil Ôl-raddedig; ac mae'n dda adrodd bod ein myfyrwyr doethuriaeth yn fwy o lawer o gwmpas eu pethau nag oeddwn i. Mae gwefr ymchwil yn dal i 'nghadw i'n effro yn y nos."

Drosodd atoch Chi

Gall Gradd Doethuriaeth arwain at gyfoeth o ddewisiadau gyrfaoedd amrywiol, yn y maes academaidd a thu hwnt. Yma, mae tri chyn fyfyriwr doethuriaeth o Brifysgol Caerdydd yn dweud wrthym i ble mae eu hastudiaethau wedi'u harwain, a sut gwnaethant gyrraedd yno.

"Roeddwn yn arfer bod yn fyfyriwr yng Nghaerdydd, lle gorffennais fy ngradd doethuriaeth mewn Hanes yn 2011, ac rwyf bellach yn gweithio fel Swyddog Ymchwil a Chyfathrebu yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae llawer o'r sgiliau ymchwilio, ysgrifennu a dadansoddi a ddatblygwyd yn ystod fy noethuriaeth yn uniongyrchol berthnasol i'm rôl bresennol. Wrth symud allan o'r byd academaidd, mae angen i chi feddwl am y sgiliau rydych chi wedi'u datblygu y tu allan i'r arbenigedd penodol, a thynnu sylw atynt. Fe wnaeth fy ngradd doethuriaeth edrych ar hanes morwyr Indiaid, ond mae'r profiad ymchwilio ac ysgrifennu yn sgil gwneud doethuriaeth yn sylfaen dda ar gyfer swydd ymchwil y tu allan i'r byd academaidd. Wrth i mi ymgeisio am swyddi, y cyfan oedd angen i mi wneud oedd meddwl am fy sgiliau a'm profiadau mewn ffyrdd gwahanol.

Fe wnaeth llawer o'r bobl rwy'n gweithio gyda nhw astudio pynciau eraill fel y gyfraith ac ieithoedd modern, ac roedd sgiliau ymchwil, dadansoddi ac ysgrifennu da yn bwysig yn y pynciau hynny hefyd. Mae hyn yn dangos pa mor hawdd yw hi i drosglwyddo'r sgiliau hyn. Ychwanegwyd at fy CV hefyd gan y cyrsiau hyfforddi a ddilynais yng Ngholeg Graddedigion y Brifysgol, a'r amrywiaeth o weithgareddau eraill y cymerais ran ynddynt fel myfyriwr doethuriaeth. Er enghraifft, addysgu, cyflwyno fy ngwaith mewn cynadleddau a chadeirio cyfarfodydd. Wrth i mi chwilio am swyddi ymchwil anacademaidd, roedd yn ddefnyddiol ysgrifennu at wleidyddion a phobl eraill i chwilio am brofiadau gwaith. Mae lleoliadau ac interniaethau yn cael eu hysbysebu hefyd ar safleoedd fel work4mp."

- Dr Ceri-Anne Fidler

"Mae'r llwybr o fyfyriwr i academydd yn llwybr sy'n amrywio'n fawr rhwng disgyblaethau, Prifysgolion ac unigolion, ond mae rhai ffactorau yn wir yn gyffredinol. Mae fy llwybr i wedi mynd â mi o fod yn fyfyriwr israddedig Optometreg, i Optometrydd Clinigol, i fyfyriwr ôl-raddedig, i ddarlithyddiaeth yn yr Ysgol Optometreg a Gwyddorau'r Golwg (er 2004). Yng nghyd-destun y maes academaidd, mae hwn yn llwybr hynod uniongyrchol, ond yn sicr nid yw wedi bod yn gwbl ddidrafferth.

Fy nghyngor pennaf fyddai meddwl am eich cynlluniau gyrfa yn y dyfodol – hyd yn oed pan fyddwch yn teimlo eich bod ym mherfeddion tywyllaf ysgrifennu'ch traethawd doethuriaeth. Os penderfynwch mai gyrfa academaidd yw'r llwybr i chi, yna trwy gydol cyfnod eich doethuriaeth mae'n ddefnyddiol i chi feddwl am sut y gall pob darn o ymchwil a wnewch gael ei ysgrifennu fel cyhoeddiad posibl. Peidiwch â methu llawn sylweddoli'r gwahaniaeth y bydd hanes da o gyhoeddiadau yn ei wneud i'ch dilyniant o radd doethuriaeth i ymchwilydd ôl-ddoethurol. Hefyd, mae'n werth meddwl am sut gallai rhaglen hyfforddi Coleg Graddedigion y Brifysgol eich helpu i lunio'ch CV i roi'r hwb hollbwysig hwnnw i chi wrth i chi ymgeisio am swyddi yn y dyfodol. Cadwch eich meddwl yn agored i gyfleoedd eraill ar gyfer datblygu sy'n codi yn ystod eich blynyddoedd ôl-raddedig, hefyd - gall helpu trefnu cynadleddau, cymryd rhan mewn addysgu israddedig, a gweithgareddau allgymorth cymunedol helpu rhoi hwb i'ch CV a'ch gwneud chi'n academydd mwy hyderus a chyflawn. Cofiwch fod angen i chi gwblhau eich doethuriaeth hefyd, felly peidiwch â mynd dros ben llestri!"

- Dr Alison Binns

"Hyd y gallaf gofio mae diddordeb wedi bod gennyf mewn anifeiliaid, natur a chadwraeth erioed. Ar ôl cwblhau gradd mewn Sŵoleg ym Mhrifysgol Lerpwl, dechreuais ar ddoethuriaeth mewn golwg ac ymddygiad adar ym Mhrifysgol Caerdydd. Ar ôl gorffen fy noethuriaeth, sefydlais gwmni di-elw o'r enw Eco-explore, sy'n cynnig cyfleoedd ymgysylltu gwyddonol a chadwraeth yn ne Cymru. Fel rhan o hyn, rwyf hefyd yn goruchwylio myfyrwyr Blwyddyn Hyfforddiant Proffesiynol a myfyriwr doethuriaeth, fel partner diwydiannol i Brifysgol Caerdydd.

Roedd sefydlu Eco-explore yn golygu y bu'n rhaid i mi ddysgu'n gyflym, gan nad oedd gennyf unrhyw wybodaeth fusnes flaenorol; ond mae wedi bod yn brofiad buddiol eithriadol. Mae'n ffantastig gallu cyflwyno cynulleidfaoedd newydd i natur a chadwraeth, a'u gweld yn eu mwynhau.

Rwyf wedi dysgu llawer trwy gydol fy ngyrfa hyd yma, ac wedi codi nifer o gynghorion ar hyd y ffordd:

1) Gwnewch yn siwr eich bod yn rhoi amser i weithio allan sut byddwch chi'n cyrraedd ble'r ydych am fod

2) Mynnwch gael cymaint o brofiad gwirfoddol ag y bo modd yn eich dewis faes

3) Rhwydweithiwch a siaradwch â phobl ynglŷn â'ch nodau gyrfa - pwy a ŵyr pwy fydd yn gallu'ch helpu chi."

- Dr Alex Pollard

Ydych chi'n ein dilyn ni eto ar Twitter? Mynnwch y newyddion diweddaraf **@CardiffUGC**

Diweddariad y Timau Llywodraethu

Mae Coleg Graddedigion y Brifysgol yn cael ei lywodraethu gan bedwar Tîm Rhaglen a Bwrdd. Gwelwch adroddiadau cyfarfodydd y grwpiau hyn isod, yn eu trefn gronolegol. Gallwch gael mwy o wybodaeth am ein llywodraethu **yma**.

Cyfleusterau i Raddedigion, 6 Tachwedd 2012
Derbyniodd y Tîm adroddiad ar y Ganolfan Graddedigion ar Gampws Parc y Mynydd Bychan a agorodd ar 26 Hydref, ac y mae myfyrwyr wedi'i groesawu'n frwd. Nodwyd y cynnydd sydd wedi'i wneud ar Adeilad Hadyn Ellis; daw hwn yn gartref ar gyfer tîm staff Coleg Graddedigion y Brifysgol yn ogystal ag yn lleoliad i lawer o ddigwyddiadau a gweithdai'r Coleg. Trafododd bolisïau ar gyfer neilltuo gweithleoedd i fyfyrwyr, ar lawr cyntaf yr adeilad newydd. Bydd ceisiadau am y lle hwn yn agor ym mis Mai. Un eitem allweddol a drafodwyd oedd y diffyg cysondeb o ran lle sydd ar gael i fyfyrwyr mewn Ysgolion; roedd hon yn broblem anodd ei datrys, am fod lle'n amrywio yn yr Ysgolion. Cytunwyd, fodd bynnag, y dylai fod uchelgais i neilltuo gweithle a lle storio unigol i bob ymchwilydd doethurol, yn ogystal ag adnoddau cyfrifiadura priodol. Byddai datganiad yn cael ei ddrafftio a'i anfon ymlaen i'r Bwrdd, ar ôl ymgynghori â'r Fforwm Cynrychiolwyr Ymchwil Ôl-raddedig a Thîm y Rhaglen Sicrhau Profiad o Safon.

Meithrin Gallu, 8 Tachwedd 2012
Derbyniodd y Tîm adroddiad ar baratoadau ar gyfer cynigion am gyllid Ymchwil Ôl-raddedig, sef Partneriaeth Grant Bloc 2 y Cyngor AHRC, Rhwydweithiau Ymchwil Cenedlaethol Sêr Cymru, cynigion NERC ac EPSRC. Derbyniwyd a thrafodwyd adroddiadau ar gofrestriadau newydd ymchwil ôl-raddedig, cyfraddau cyflwyno a'r graddau ymchwil a ddyfarnwyd. Adroddodd y swyddfa Recriwtio Ôl-raddedigion am y gwelliant yn eu tudalennau gwe. Mae eu pedair blaenoriaeth allweddol yn ystod 2012-13 yn cynnwys gwella'r broses ymgeisio ar-lein; datblygu cynlluniau recriwtio penodol i Ysgolion; gwella'r recriwtio yn yr UE; a gweithio gyda strwythurau newydd y Coleg i wella cydweithredu. Adroddodd y Swyddfa Ryngwladol ei bod yn datblygu strategaeth recriwtio ryngwladol; yn datblygu systemau mwy hwylus ar gyfer adrodd i noddwyr; ac yn archwilio darpariaeth Saesneg ychwanegol. Trafodwyd y Gronfa Ysgoloriaeth Ryngwladol, a hefyd Cynllun Ysgoloriaeth y Llywydd.

Hyfforddi a Datblygu, 23 Tachwedd 2012
Ar ôl cael adroddiad cadarnhaol iawn ar y peilot i fyfyrwyr gyflawni Achrediad yr Academi Addysg Uwch drwy wneud cais unigol, cytunodd y tîm y dylai'r rhaglen barhau a'i hagor allan i bob myfyriwr ymchwil ôl-raddedig. Adolygwyd y gyllideb ar gyfer 2012-13 a chytunwyd i ddyrannu £6k arall i gyllid mentrau ymchwil ôl-raddedig (gan ddod ag ef at gyfanswm o £16k) ac i ddyrannu £5k fel cyllid dilynol i brosiectau myfyrwyr llwyddiannus. Cytunwyd cyllid hefyd ar gyfer digwyddiad cymdeithasol yn yr haf ar gyfer y gymuned ymchwil ôl-raddedig gyfan a goruchwylwyr, er nad yw'r swm wedi'i gytuno eto. Derbyniwyd adroddiad blynyddol Rhaglen Coleg Graddedigion y Brifysgol ar gyfer 2011-12; nodwyd bod archebion y gweithdy wedi codi eto, i 7,500 (i fyny 8%), er mai dim ond cynnydd o 4% oedd mewn presenoldeb (i 4,658). Caiff rhyw un o bob pum archeb (22%) eu canslo gan fyfyrwyr, ac mae 10% o'r archebion yn 'achosion o beidio â mynychu'. Adroddwyd am werthusiadau'r gweithdy hefyd, ac maent yn gadarnhaol iawn ar y cyfan. Bu'r Tîm hefyd yn trafod y Cynllun Gweithredu Ymchwil Ôl-raddedig, gan gynnwys gwaith tuag at ddatblygu cynigion ar gyfer profiad gwaith ar gyfer ymchwilwyr ôl-raddedig a chysylltiadau cryfach gyda chyn fyfyrwyr.

Fforwm Cynrychiolwyr Ymchwil Ôl-raddedig, 13 Tachwedd 2012
Rhoddodd y Fforwm adborth ar ddosbarthu Llyfryn Rhaglen Coleg Graddedigion y Brifysgol i fyfyrwyr sy'n parhau â'u hastudiaethau; y wefan newydd; y Fframwaith Datblygu Ymchwilwyr (RDF); a chyfranogi yn yr Arolwg Profiad Ymchwil Ôl-raddedig (PRES). Ar ôl cael adroddiad byr ar weithgarwch y Tîm Rhaglenni, trafododd y datganiad o ddarpariaeth safonol: roedd myfyrwyr yn gadarnhaol iawn ynglŷn ag ef a theimlent y dylai hefyd gynnwys ymrwymiad i argraffu am ddim a mynediad â blaenoriaeth i feddalwedd. Roedd y Fforwm yn hynod falch o glywed am y lle newydd yn Adeilad Hadyn Ellis, a gwnaeth nifer o argymhellion ynglŷn â'r polisi neilltuo lle. Trafodwyd cyfraddau cyflwyno (gan Feithrin Gallu) a nododd cynrychiolwyr y gallai cyfnod ymsefydlu â mwy o strwythur ar ddechrau blwyddyn 2 a 3 fod yn ddefnyddiol, ynghyd â dull mwy cyson o gynnal arfarniadau blynyddol a monitro cynnydd. Yn olaf, etholwyd aelodau myfyrwyr y Timau Rhaglenni a'r Bwrdd.

Sicrhau Profiad o Safon, 13 Ionawr 2013
Roedd eitemau allweddol ar yr agenda yn cynnwys trafodaeth am gyfraddau cyflwyno doethuriaeth a sut gellid eu gwella; nodwyd bod digwyddiad hanner diwrnod wedi'i gynllunio gyda Chyfarwyddwyr Astudiaethau Ymchwil Ôl-raddedig i fynd i'r afael â'r ystyriaeth hon yn fanwl. Derbyniodd y Tîm adroddiad ar ganlyniadau graddau ymchwil aflwyddiannus hefyd, sy'n parhau ar ryw 5% o'r rheiny a archwilir. Rhoddwyd ystyriaeth hefyd i adroddiad ar y materion a arweiniodd at apeliadau a chwynion ar gyfer myfyrwyr graddau ymchwil; nodwyd y gall fod angen mwy o arweiniad ar Ysgolion ynglŷn â sut i ddelio ag amgylchiadau ansafonol. Trafodwyd system seiliedig ar SIMS i gynorthwyo Ysgolion a myfyrwyr gyda monitro cynnydd; mae angen ymgynghori ymhellach â'r Ysgolion. Gobeithir y bydd cynllun peilot ar waith ar gyfer mis Hydref 2013. Trafodwyd PRES, cynnwys cwestiynau lleol a ffyrdd o wella'r gyfradd ymateb. Nodwyd bod yr arolwg hwn bob dwy flynedd yn ffynhonnell wybodaeth eithriadol bwysig i'r Tîm. Bu'r Tîm yn ystyried y modd gorau i fynd i'r afael â diffyg cysondeb o ran lle a ddarperir ar gyfer ymchwilwyr ôl-raddedig; roedd y Tîm Cyfleusterau Graddedigion wedi cyfeirio'r Datganiad o Ddarpariaeth Safonol i'r Tîm. Cytunwyd gofyn am gyngor gan Fwrdd Coleg Graddedigion y Brifysgol ar y mater hwn. Yn olaf, nododd y Tîm y cynnydd sydd wedi'i wneud o'r Cynllun Gweithredu Ymchwil Ôl-raddedig.

PRES: Mynnwch Ddweud eich Dweud!

Mae'r Arolwg o Brofiad Ymchwil Ôl-raddedig (**PRES**) yn wasanaeth unigryw a ddarperir gan yr Academi Addysg Uwch i bob darparwr addysg uwch. Mae'r arolwg yn casglu adborth gan fyfyrwyr ymchwil ôl-raddedig cyfredol mewn modd systematig a hwylus. Mae'r canlyniadau yn ddienw, gan ganiatáu cymharu yn erbyn y sector ac mewn clybiau meincnodi, a sicrhau ar yr un pryd eu bod yn cael eu defnyddio ar gyfer gwelliannau mewnol.

Bydd myfyrwyr cymwys yn cael neges e-bost gychwynnol yn ystod yr wythnos sy'n dechrau ar **4 Mawrth**, a fydd yn cynnwys cyswllt ar-lein â'r arolwg.

O Swyddfa'r UGC

'Potensial' a 'chyfle' yw'r ddau air a ddaeth i'm meddwl pan ofynnwyd i mi ysgrifennu'r darn hwn ar gyfer y cylchlythyr. I'r Athro Hadyn Ellis y mae ein diolch am ei weledigaeth o gymorth i fyfyrwyr ôl-raddedig, gweledigaeth sydd wedi arwain at sefydliad nodedig Coleg Graddedigion y Brifysgol sydd gennym heddiw. Yr Athro Hadyn Ellis wnaeth adnabod y potensial am greu dull cynhwysfawr ac integredig o ddarparu ymchwil ôl-raddedig y gellid wir ei gweld fel ymchwil o safon fyd-eang. Mae cymaint wedi digwydd er 2004...

Symudais i Gaerdydd yn yr hydref y flwyddyn honno, ar ôl bod yn gweithio ym Mhrifysgol Caergrawnt am nifer o flynyddoedd mewn dwy adran academaidd a'r Ganolfan ar gyfer Ymchwil yn y Celfyddydau, Gwyddorau Cymdeithasol a'r Dyniaethau. Roeddwn yn teimlo mor gyffrous o fod wedi cael cynnig y swydd fel Gweinyddydd Ysgol y Graddedigion ar gyfer y Dyniaethau a'r Gwyddorau Cymdeithasol - swydd newydd mewn tîm newydd mewn swyddfa newydd ar ddechrau blwyddyn newydd! Roeddwn yn gwybod y byddai'n rhoi cyfle i mi'n bersonol gyflawni fy mhotensial, ond nid oedd gen i syniad bryd hynny faint fyddwn i'n elwa.

Am flynyddoedd lawer rwyf wedi bod â diddordeb mewn datblygu gyrfaoedd ac wedi bod ag uchelgais gudd i ennill cymhwyster proffesiynol mewn arweiniad ac addysg gyrfaoedd. Rhyw ddwy flynedd yn ôl - yn wyrthiol - daeth y cyfle i mi. Roeddwn wedi bod yn trefnu digwyddiadau gyrfaoedd ar gyfer yr Ysgolion Ymchwil a Graddedigion yn y Dyniaethau a'r Gwyddorau Cymdeithasol, ac o ganlyniad i newidiadau amrywiol yn y swyddfa, daeth y cyfle i mi gydlynu hyfforddiant gyrfaoedd Ymchwil Ôl-raddedig ar draws yr holl ddisgyblaethau yn Rhaglen Coleg Graddedigion y Brifysgol. Yn well fyth, canfyddais fod cymhwyster ar gael y gallwn weithio tuag ato ochr yn ochr â'r swydd bob dydd a fyddai'n fy ngalluogi i ddatblygu dealltwriaeth broffesiynol o waith gyrfaoedd mewn addysg uwch. Erbyn hyn rwyf bron hanner ffordd drwy'r diploma ôl -raddedig (a gynhelir gan Brifysgol Warwick ar y cyd ag AGCAS - Cymdeithas y Gwasanaethau Cynghori ar Yrfaoedd i Raddedigion) ac mae hwn wedi bod yn brofiad difyr dros ben sydd wedi cael effaith aruthrol ar fy ngwaith. Mae wedi bod yn hyfryd dod i adnabod fy nghydweithwyr draw yn yr adran Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd ac i gryfhau cysylltiadau rhwng y ddwy swyddfa. Gyda'n gilydd rydym yn gweithio'n agos i sicrhau bod Coleg Graddedigion y Brifysgol yn cynnig amrywiaeth o hyfforddiant gyrfaoedd i ymchwilwyr sy'n diwallu'u hanghenion penodol. Mae'n cymryd dipyn o amser am fod rhaid adolygu'r ddarpariaeth bresennol (mae rhywfaint ohoni'n dyddio'n ôl i grwpiau gwreiddiol yr Ysgol Raddedigion), ond rwy'n gobeithio cyn bo hir y bydd yr hyfforddiant sgiliau rheoli gyrfaoedd rydym yn eu cynnig trwy Raglen Coleg Graddedigion y Brifysgol yn darparu popeth y gall fod ei angen ar ymchwilydd ôl-raddedig.

Rwyf hefyd yn gweld potensial a chyfle ar draws gwaith cyfan Coleg Graddedigion y Brifysgol – mewn hyfforddiant a datblygu Ymchwil Ôl-raddedig, wrth gwrs – ond lawn gymaint yn ein gwaith ar feithrin gallu, sicrhau ansawdd a darparu cyfleusterau.

Mae llawer wedi'i gyflawni ers 1 Ionawr 2005 – a gyda lansio Coleg Graddedigion y Brifysgol ym mis Ionawr 2011, mae'n sicr yn teimlo fod pethau'n mynd o nerth i nerth.

Ac wrth gwrs, bedair gwaith y flwyddyn, byddwn yn croesawu'r myfyrwyr doethuriaeth newydd yn **Dechrau Arni**. Pa botensial mwy allai fod? Y bobl sydd ar flaen y gad ym maes ymchwil yw'r rhain, a byddant yn cyfrannu gymaint yma yn y DU a thramor pan fyddant yn cwblhau ac yn symud ymlaen i gam nesaf eu gyrfa yn y byd academaidd neu du hwnt. Dymunwn yn dda i bob un ohonynt."

- **Charlotte Whitehead**, Swyddog yng Ngholeg Graddedigion y Brifysgol

Cynadleddau'n Cael eu Harwain gan Fyfyrwyr

Mae Coleg Graddedigion y Brifysgol yn cyflwyno nifer o gynadleddau'n cael eu harwain gan fyfyrwyr trwy gydol y flwyddyn – gan gynnig cyfleoedd i fyfyrwyr mewn disgyblaethau gwahanol i gyflwyno'u gwaith i'w gilydd, i rannu a datblygu'u diddordebau ymchwil, a sefydlu cysylltiadau rhyngddisgyblaethol sydd o fudd i'r ddwy ochr.

Nod y cynadleddau yw i ymchwilwyr gyfleu hanfod eu gwaith ymchwil drwy gyflwyniad byr i bobl eraill nad ydynt yn arbenigwyr. Mae hyn yn rhoi'r cyfle i fyfyrwyr ddatblygu sgiliau cyfathrebu hanfodol mewn amgylchedd sy'n gefnogol i'r ddwy ochr. Rhoddir cyfle gwerthfawr i gyfranogwyr hefyd i gyfarfod ag ymchwilwyr eraill a sefydlu cysylltiadau.

Ym mhob un o'r cynadleddau, ceir anerchiadau trwy gydol y dydd, gyda chyflwyniadau posteri'n cael eu dangos yn ystod yr egwyl ginio; darperir cinio fel rhan o'r diwrnod. Caiff gwobrau eu rhoi ar ddiwedd y dydd am yr anerchiad gorau a'r poster gorau, a chynhelir derbyniad diodydd i gloi'r digwyddiad.

Mae pwyllgorau ar gyfer y Cynadleddau yn cynnwys myfyrwyr o'r Brifysgol. Mae cyn aelodau'r Pwyllgorau wedi mwynhau'r profiad yn fawr ac wedi'i weld fel ychwanegiad defnyddiol at eu CV. Mae cymryd rhan yn galluogi myfyrwyr i ddatblygu sgiliau y gellir eu trosglwyddo y gallant eu cymhwyso mewn amrywiaeth fawr o lwybrau gyrfa yn y dyfodol. I gael mwy o wybodaeth am ddod yn aelod o Bwyllgor, anfonwch neges e-bost i **ugc@caerdydd.ac.uk**

Cynadleddau i Ddod

Canolbwyntio ar y Gwyddorau Cymdeithasol – 14 Mawrth
Dr Katie Featherstone, Yr Ysgol Nyrsio a Bydwreigiaeth, Prifysgol Caerdydd
"Yr unigolyn, y teulu, a'r clinig: gwneud synnwyr o risg enetig"

Llais y Dyniaethau - 21 Mawrth
Prif Siaradwr: Dr Andrew Edgar, Yr Ysgol Saesneg, Cyfathrebu ac Athroniaeth
(teitl yr anerchiad i'w gadarnhau'n fuan)

Siarad am Wyddoniaeth – 2 Mai
Prif Siaradwr i'w drefnu

Cynhadledd Ryngddisgyblaethol Cyfieithiadau – 27 a 28 Mehefin
Prif Siaradwr i'w drefnu

Cewch ragor o wybodaeth am y Cynadleddau ar ein **gwefan**

Arddangos Ymgysylltiad Cyhoeddus

Mae myfyrwyr doethuriaeth yn chwarae rhan bwysig yn ymgysylltiad cyhoeddus y Brifysgol. Pa un a fel rhan o ddigwyddiadau mawr sy'n denu cannoedd o blant ysgol, gweithgareddau grŵp bach neu fentrau unigol, myfyrwyr sydd wrth wraidd y gweithgareddau hyn yn aml.

I gydnabod hyn, mae Coleg Graddedigion y Brifysgol yn cynllunio i arddangos ymgysylltiad cyhoeddus ôl-raddedigion **ddydd lau 25 Ebrill 2013** yn y Prif Goleg. Bydd y digwyddiad yn agored i unrhyw un o Brifysgol Caerdydd sydd â diddordeb i fynychu, ynghyd â'r rheiny o sefydliadau partner.

Bydd yr Athro Hywel Thomas, Dirprwy Is-Ganghellor Ymgysylltu a Rhyngwladol, yn agor y digwyddiad prynhawn hwn ac yn trafod y cyd-destun ar gyfer cynnwys ôl-raddedigion mewn Ymgysylltiad Cyhoeddus. Dilynir ef gan nifer fach o siaradwyr sy'n cynnwys israddedigion a chynrychiolwyr o RCUK a Chanolfan Darwin.
Nes ymlaen, bydd y brif elfen arddangos yn cael ei chynnal yn Oriel Viriamu Jones gyda bwffe a derbyniad diodydd.
Dywedodd yr Athro Ken Wann, Dirprwy Ddeon Graddedigion y Brifysgol: "Mae ein hymchwilwyr ôl-raddedig yn cyfrannu'n aruthrol ac yn frwdfrydig at ymgysylltiad cyhoeddus, ac maent yn amlwg yn mwynhau'r profiad. Gobeithiwn gydnabod y gwaith rhagorol maent yn ei wneud gyda'r digwyddiad hwn."
Rydym yn chwilio am fyfyrwyr sydd wedi bod yn ymwneud â gwaith ymgysylltu yn ei ystyr ehangaf i ddod i'r digwyddiad hwn, a dod ag arddangosiadau, fideos, posteri - unrhyw beth a fydd yn eich helpu i ddangos sut ydych chi wedi ymgysylltu â'r cyhoedd a rhannu eich profiadau.

Os oes gennych sylwadau neu awgrymiadau ar gyfer y digwyddiad hwn, neu os hoffech gymryd rhan, anfonwch neges e-bost i **ugc@caerdydd.ac.uk.**